# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.15 ar 11 Mawrth 2026, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Otar Akanyeti; Dr Stephen Atherton; yr Athro Iain Barber Dirprwy Is-Ganghellor (Gwyddorau); Mr Tom Bates; Dr Hanna Binks; yr Athro Hazel Davey; yr Athro Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor (Dyniaethau); Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Millie Hackett, Llywydd Undeb Aber; Nanw Hampson, Llywydd UMCA; yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Aloysius Igboekwu; yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Ffion Jones; yr Athro Louise Marshall; Esperanza Monnier, Swyddog Materion Academaidd Undeb Aberystwyth; yr Athro Charles Musselwhite; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Ms Jackie Sayce; yr Athro Phillipp Schofield; Dr Alistair Shepherd. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Homagni Choudhury, Mr Prysor Davies; yr Athro Engobo Emeseh; Dr Gwion Evans; yr Athro John Gough; Dr Joe Ironside, Dr Thomas Jansen; Dr Anoush Simon. |
| Yn gweinyddu: | Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd; Mrs Anna Cole, Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Lliwen Jones, Cyfieithydd; Dr Helen Miles, yn lle'r Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Mr Ian Munton, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth: yr Athro Andy Evans; yr Athro Mererid Hopwood; Dr Rhianedd Jewell; Dr Alex Mangold; Dr Julie Mathias; Dr Steve Thompson; Dr Lucy Trotter.

---

**16. CROESO**

Estynnwyd croeso cynnes i Anna Cole (Dirprwy Gofrestrydd, Sicrhau Ansawdd), a oedd yn dod i'w chyfarfod cyntaf ac a fyddai'n gwasanaethu fel Ysgrifennydd i'r Senedd. Cofnododd y Senedd hefyd ei diolch i Kim Bradick am ei gwaith a'i chyfraniad, gan nodi ei bod yn gadael y Brifysgol.

**17. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 18. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19/11/2025 (SEN2526-023).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

## 19. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2526-024).

## 20. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2526-025)

NODWYD

Bod tair rhan i'r adroddiad: materion y sector, materion allanol a diweddariadau sy'n gysylltiedig â materion academaidd. Nodwyd ynddo gynlluniau Llywodraeth Cymru ar Ddyfodol Addysg Drydyddol yng Nghymru a gwahoddwyd yr aelodau i anfon unrhyw gyfraniadau ar gyfer yr ymateb a wneir ar y cyd gan Brifysgolion Cymru. Tynnwyd sylw at adroddiad Medr ar ddadansoddiad o'r galw am wahanol bynciau, ochr yn ochr â chanllawiau ar gyfer bod yn ddiduedd yn ystod etholiadau'r Senedd; dangosodd data ar y sector cyfan fod gostyngiad bach yn niferoedd staff academaidd y DU (HESA), fod staff anabl yn wynebu anghydraddoldebau (Arolwg Cenedlaethol ar Staff Anabl), fod gostyngiad yn y premiwm cyflogau i raddedigion yn y DU (*Financial Times*) a bod pwysau cynyddol ar y system benthyciadau myfyrwyr (Trysorlys EF); bu sylw sylweddol yn y cyfryngau i waith ymchwil allweddol ac fe gyhoeddwyd 49 o eitemau newyddion; cafwyd ymweliadau pwysig gan weinidogion, digwyddiadau meithrin cyswllt â'r cyhoedd, a chyfathrebu mewnol ar yr Adroddiad Blynyddol a'r gwaith parhaol i gyflawni Strategaeth 2030 trwy darparu diweddariadau rheolaidd a gweithgareddau cyswllt â staff.

## 21. MATERION YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2526-026)

NODWYD

Tynnodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) sylw at berfformiad cryf ar draws meysydd ymchwil, arloesi a meithrin cyswllt, gyda thwf mewn ceisiadau ymchwil (i fyny 36%) a grantiau newydd (cynnydd 68%) gan nodi bod grantiau llai eu gwerth, ond yn niferus, yn helpu i osod sylfaen eang a sefydlog a fydd yn helpu i gefnogi

ceisiadau am grantiau mwy yn y dyfodol. Daliwyd ati i gynnal llawer o weithgareddau cyswllt cyhoeddus a diwylliannol, ac fe gynhaliwyd sawl digwyddiad ac arddangosfa uchel eu proffil yn llwyddiannus. Ymhlith y llwyddiannau allweddol roedd cystadlaethau am gyllid allanol gan gynnwys Cronfa'r Bartneriaeth Wyddoniaeth Ryngwladol, prosiectau Innovate UK a thrwy gydweithio â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ogystal â gwelliannau parhaus i'r system a chynnydd strategol a fydd yn cefnogi arallgyfeirio incwm yn yr hirdymor. Roedd y pwyllgor yn falch o nodi bod Cytundeb Ysgoloriaeth yr AHRC ar Hanes Meddyginiaethau Llysieuol yng Nghymru yn dangos pontio effeithiol rhwng ymchwil a gweithgarwch dysgu.

**22. Y PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (SEN2526-027)

NODWYD

Roedd angen dull mwy strwythuredig o ymdrin â chyfalaf ymchwil mewnol, wedi'i dargedu at gyllidwyr allweddol. Roedd yn ofynnol i'r Brifysgol gadarnhau ei Hunedau Asesu i'r FfRhY, gan gydweithio'n agos â staff ymchwil i sicrhau'r trefniadau gorau posib i'r cyflwyniadau. Mae cynnydd wedi'i wneud ar y diwylliant ymchwil wrth i'r Grŵp Asesu Ymchwil Cyfrifol gael ei sefydlu.

**23. MATERION ADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) (SEN2526-028)

NODWYD

Tynnodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) sylw at ddatblygiadau rheoleiddio allweddol, gan gynnwys bwriad yr Undeb Ewropeaidd i gofrestru o dan system reoleiddio newydd Medr a'r llwyddiant wrth sicrhau £100K i arwain fframwaith hyfforddi atal hunanladdiad ar draws sefydliadau. Tynnwyd sylw at y cynnydd ar brosiectau sy'n canolbwyntio ar bartneriaid fel y rhaglenni ar-lein newydd a'r datblygiadau masnachfraint. Yn fewnol, rhoes yr adroddiad ddiweddariadau ar y niferoedd yn cymryd rhan yn yr ACF, ar ddatblygu Nodweddion Graddedigion, mewnwelediadau a gwasanaethau i'r myfyrwyr yn uniongyrchol, e.e. Holi Aber/Ask Aber. Cynhaliwyd cynhadledd ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, lle y cafodd darganfyddiadau a gwybodaeth eu rhannu gan adrannau a chyrff allanol. Tynnwyd sylw at brosiectau cyflogadwyedd pwysig i sicrhau llwyddiannau gwell i fyfyrwyr a llwybrau gyrfaol gwell i raddedigion.

**24. Diweddariad ar Adroddiad Blynyddol Undeb Aber**

DERBYNIWYD

Diweddariad ar Adroddiad Blynyddol Undeb Aber (SEN2526-029)

NODWYD

Yn sgil y gweithdy yng nghyfarfod blaenorol y Senedd, cadarnhawyd bod adroddiad Undeb Aber yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ond y byddai'n well ei gyflwyno i'r Weithrediaeth a'r

Cyngor yn hytrach na'r Senedd. O 2026 bydd yn dilyn trefn newydd a fydd yn cynnwys cynllun gweithredu a, maes o law, newidir i fodel adrodd ar sail blynyddoedd calendr. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o adolygiad ehangach ar lais y myfyrwyr, sy'n cyd-fynd â fframwaith rheoleiddio Medr. Trafododd y pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr gyflwyno gweithdy rhyng-bwyllgorau i hwyluso trafodaeth lawnach ar eitemau agenda allweddol ac i gryfhau cysylltiadau yn unol â'r gofynion newydd ac awydd y Brifysgol i hybu cyfranogiad myfyrwyr.

**25. Y PWYLLGOR ANSAWDD A SAFONAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad oddi wrth y Pwyllgor Ansawdd a Safonau (SEN2526-030)

NODWYD

1. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i ddiwygio Gylch Gwaith a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Ansawdd a Safonau er mwyn cynnwys goruchwyliaeth ac awdurdod i gymeradwyo safonau ynghylch derbyn ymgeiswyr i'r brifysgol yn unol ag Ordinhad 15 y Senedd.

2. Gwaith parhaus ynghylch datblygu arferion mwy cyson ynghylch byrddau arholi; gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol; ac effaith newidiadau i'r TUAAU.

3. Cafwyd crynodeb o adroddiadau blynyddol 2024/25 yn ymwneud ag Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, Apeliadau Academaidd, Cwynion, Disgyblaeth, Addasrwydd i Ymarfer, Cymorth i Astudio, Gwaharddiadau, Llythyrau Adolygiadau Terfynol a Chwblhau Gweithdrefnau ac achosion a oedd wedi'u hanfon i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

4. Cadarnheir bod y gofyniad IELTS (neu gymwysterau cyfwerth) i gynlluniau astudio yng Nghyfadran y Gwyddorau sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen wedi'i ostwng o 6.5 i 6. Nid yw hyn yn cynnwys cynlluniau sy'n cynnwys y flwyddyn sylfaen datblygu iaith.

5. Gofynnwyd am gymeradwyaeth am reoliad ychwanegol yn ymwneud â chynlluniau pedair blynedd gyda blwyddyn sylfaen datblygu iaith er mwyn bodloni safonau sy'n gysylltiedig ag IELTS.

6. Cafwyd eglurhad nad yw trosglwyddo credydau yn cael ei dderbyn i gynlluniau ategol unflwydd.

PENDERFYNWYD

7. Cymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau, gan gynnwys ychwanegu bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cymeradwyo amodau derbyn ymgeiswyr i'r Brifysgol ar ran y Senedd. [**GWEITHREDU**: Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd y Senedd)]

8. Cyn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol, cael manylion y cynlluniau astudio yr effeithir arnynt gan y newid i'r gofynion derbyn IELTS i gynlluniau astudio pedair blynedd sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen ar bwnc academaidd yng Nghyfadran y Gwyddorau. **[GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd y Senedd)]

9. Cymeradwyo'r rheoliadau ychwanegol ar gyfer cynlluniau sydd â blwyddyn sylfaen iaith. **[GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd y Senedd)]

## 26. PWYLLGOR ADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr (SEN2526-031)

NODWYD

Roedd y Pwyllgor wedi diweddaru ei Gylch Gorchwyl i adlewyrchu newidiadau trefniadol diweddar. Cytunwyd i ddirwyn *Rho Wybod Nawr* a *Dy Lais ar Waith* i ben, a'u disodli gan Wasanaeth Ymholiadau newydd y Brifysgol; cymeradwywyd hefyd strwythurau newydd ar gyfer gwaith i sicrhau cynhwysiant i bobl ag anableddau, gan nodi y dylai'r cwricwlwm a'r asesiadau gyd-fynd â chynlluniau ehangach y Brifysgol.

## 27. Materion Llywodraethu

NODWYD

1. Arweiniwyd gweithdy rhyngweithiol gan Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg yn sgil yr Adolygiad ar Lywodraethu a adroddwyd i'r Senedd ym mis Mehefin 2025, gan ganolbwyntio ar sut y bydd y Senedd yn gweithredu yn y dyfodol. Nod y sesiwn oedd egluro'r camau nesaf, casglu meddyliau'r aelodau, a nodi'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Ni ddisgwyliwyd unrhyw benderfyniadau.

2. Gofynnwyd i aelodau'r gweithdy ystyried dangosyddion gweithredu effeithiol ac a yw'r Senedd yn cyflawni ei Chylch Gorchwyl yn effeithiol a pha fathau o sicrwydd sydd eu hangen er mwyn darparu tystiolaeth o hynny.

3. Ymhlith yr adborth a gafwyd o'r gweithdy oedd: yr awydd am well deunydd briffio; mwy o eglurder ynghylch pryd roedd angen penderfyniadau gan yr Senedd; tynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg o'r is-bwyllgorau; a threfniadau adborth cryfach o'r Cyngor er mwyn dangos yr effaith a geir. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cael trafodaeth ystyrlon, sylw priodol i bapurau, a'r gallu i herio argymhellion lle bo angen. Nodwyd bod gan y Senedd oruchwyliaeth ar aelodaeth yr is-bwyllgorau a'r cylchoedd gorchwyl, ac felly dylai fod ganddi ffydd ym mhroses benderfynu'r is-bwyllgorau, ac yn cadw'r gallu i uwchgyfeirio materion neu ofyn am ragor o fanylion pan fo angen. Nodwyd mai hyfforddiant a threfniadau cynefino i gyfer aelodau'r Senedd oedd yn flaenoriaethau, yn ogystal â chyfathrebu cliriach ynghylch disgwyliadau.

4. Diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau. Byddai'r trafodaethau a'r nodiadau a gofnodwyd yn llywio cam nesaf y datblygiadau wrth i'r tîm Llywodraethu barhau i adolygu prosesau, aelodaeth a'r cylchoedd gorchwyl. Ymhlith y camau nesaf roedd: datblygu deunydd hyfforddi; disgrifiadau rolau sy'n adlewyrchu'r disgwyliadau allweddol; mecanweithiau i gloriannu effeithiolrwydd y Senedd; a gwaith yn y tymor hwy i adolygu aelodaeth y Senedd; ac adolygu'r cylchoedd gorchwyl.

PENDERFYNWYD

5. Y byddai Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg yn ystyried yr adborth o'r trafodaethau ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

**28. CANGEN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Jonathan Fry, Cadeirydd y Gangen (SEN2526-032)

NODWYD

Cynnwys yr adroddiad.

**29. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU.**

DERBYNIWYD

Cofnodion o'r pwyllgorau canlynol (SEN2526-033):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi
2. Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau
3. Y Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr
4. Y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol
5. Y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg

NODWYD

Yr adroddiadau a gafwyd o'r pwyllgorau.

UNRHYW FATER ARALL - dim

---